Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Rhaglen gyfalaf gofal plant a'r blynyddoedd cynnar

Cyfeirnod y cymhorthdal SC10858 - prif amcan y cynllun cymhorthdal hwn yw cryfhau a chefnogi'r sector gofal plant yng Nghymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 18 Gorffennaf 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 18 Gorffennaf 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gyfalaf-gofal-plant-ar-blynyddoedd-cynnar-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Pwyntiau i'w nodi

Rhanbarth

Teitl

Sail gyfreithiol

Amcanion

awdurdodau cyhoeddus

Cymhwysedd

Sectorau

Hyd

Cyllideb

Ffurf y cymorth

Telerau ac amodau

Cyfrifo cymorthdaliadau

Cymhorthdal mwyaf

Gwybodaeth gysylltu



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gyfalaf-gofal-plant-ar-blynyddoedd-cynnar-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Pwyntiau i'w nodi

Os ydych yn defnyddio’r cynllun hwn i ddyfarnu cymorthdaliadau, rhaid ichi roi gwybod i’r Uned Rheoli Cymorthdaliadau drwy anfon e-bost i: **yrunedrheolicymorthdaliadau@llyw.cymru**

# 1. Rhanbarth

Cymru gyfan

# 2. Teitl y Cynllun Cymhorthdal

Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

# 3. Sail gyfreithiol y DU

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn benodol adrannau 58A a 60.

# 4. Amcanion y Cynllun

Prif amcanion Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar yw sicrhau bod y sector gofal plant yng Nghymru yn cael ei gryfhau a'i gefnogi. Mae'r cyllid hwn hefyd yn helpu i gefnogi ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i wneud y canlynol:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gyfalaf-gofal-plant-ar-blynyddoedd-cynnar-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith
- mynd ati’n raddol i ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg
- parhau i gefnogi ein rhaglen Dechrau’n Deg flaenllaw.

## 5. Awdurdod/awdurdodau cyhoeddus sydd wedi’i awdurdodi/wedi’u hawdurdodi i weithredu'r Cynllun

Llywodraeth Cymru

## 6. Categori/categorïau mentrau cymwys

Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant cofrestredig a'r rhai sy'n gweithio tuag at gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

## 7. Sector(au) a gefnogir

- Addysg
- Gweithgareddau gwasanaethau eraill (gan gynnwys Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gyfalaf-gofal-plant-ar-blynyddoedd-cynnar-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 8. Hyd y Cynllun

1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2025

## 9. Cyllideb ar gyfer cymorth o dan y Cynllun

£42,000,000

## 10. Ffurf y cymorth

Bydd yr holl gymhorthdaliadau a roddir o dan y Cynllun yn dryloyw. Bydd modd rhoi cymorth ar ffurf grantiau.

## 11. Telerau ac amodau cymhwysedd

Bydd yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a gwblheir gan awdurdodau lleol yn nodi bylchau lle mae angen darpariaeth gofal plant ac felly cyllid cyfalaf. Bydd Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru neu sydd wrthi’n cofrestru yn gymwys i wneud cais am gyllid cyfalaf drwy'r awdurdod lleol perthnasol.

## 12. Y sail ar gyfer cyfrifo cymorthdaliadau

Rydym yn cynnig defnyddio’r 4 ‘diffiniad’ yn atodlen 1 o’r Canllawiau Statudol Gofal Plant, sef:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gyfalaf-gofal-plant-ar-blynyddoedd-cynnar-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Lleoliad cyfrwng Cymraeg - Cymraeg yw prif iaith dydd i ddydd y lleoliad. Cymraeg yw iaith yr holl weithgareddau, a'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc. Mae hefyd yn iaith gweinyddiaeth y lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu gyda rhieni naill ai yn Gymraeg neu yn Gymraeg a Saesneg yn unol â dewis y rhieni. Croesawir plant o bob cefndir iaith i'r ddarpariaeth.
- Lleoliad cyfrwng Cymraeg a Saesneg - Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio ochr yn ochr fel ieithoedd o fewn y lleoliad ac mae elfennau dwyieithog llawn. Defnyddir Cymraeg a Saesneg fel ieithoedd cyfathrebu gyda'r plant a phobl ifanc, a defnyddir y ddwy iaith ar gyfer gweithgareddau. Defnyddir y ddwy iaith ar gyfer gweinyddiaeth y lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu gyda rhieni naill ai yn Gymraeg neu yn Gymraeg a Saesneg yn unol â dewis y rhieni.

Dyma'r meini prawf ar gyfer pwysoli.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd amlygu a chefnogi ysgogwyr polisi. Rydym felly'n cynnig bod ceisiadau am y Grant Cyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn cael eu pwysoli yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg – Pan fo cynllun yn cefnogi ehangu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol, byddai'n cael ei bwysoli 30% ar gyfer darpariaeth drochi, ac 20% ar gyfer darpariaeth ddwyieithog.
- Cydleoli – er enghraifft ar safleoedd ysgolion, mewn Hybiau Cymunedol neu Iechyd – Pan fo cynllun yn cefnogi agenda cydleoli gwasanaethau Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, byddai'n cael ei bwysoli 25%.
- Ehangu'r Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg neu Feithrinfeydd Cyfnod Sylfaen mewn lleoliad gofal plant – Byddai cynllun yn cael ei bwysoli 10% ar gyfer pob agwedd a fyddai'n cael ei darparu mewn cais. Felly, byddai cynllun sy'n cynnig cyfnod sylfaen mewn lleoliad Dechrau'n Deg ac yn derbyn plant o dan y Cynnig Gofal Plant yn cael ei bwysoli 30%. Byddai lleoliadau gofal plant sy'n darparu'r Cynnig Gofal Plant ond dim byd arall yn cael eu pwysoli 10%.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gyfalaf-gofal-plant-ar-blynyddoedd-cynnar-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Ehangu lleoedd – Byddai'n rhaid i'r achos busnes ar gyfer cynllun nodi'n glir faint y byddai'r ddarpariaeth bresennol yn cael ei hehangu, er enghraifft byddai buddsoddiad cyfalaf yn arwain at gynyddu capasiti'r lleoliad o X i Y. Byddai'r pwysoli'n cynyddu yn unol â'r cynnydd yn y ddarpariaeth, hyd at uchafswm o 15%.

# 13. Y cymhorthdal mwyaf a ganiateir o dan y cynllun

Nid oes uchafswm gan y bydd pob prosiect yn wahanol a bydd y swm yn dibynnu ar angen. Er hynny, yn seiliedig ar brofiad a gwerth blaenorol, ni fydd yn fwy na £2m.

# 14. Gwybodaeth gysylltu


**Yr Uned Rheoli Cymorthdaliadau**

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Y Deyrnas Unedig.

**Rhif ffôn:** + 44 (0)3000 604 400
**E-bost:** yrunedrheolicymorthdaliadau@llyw.cymru


Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gyfalaf-gofal-plant-ar-blynyddoedd-cynnar-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Uned Rheoli Cymorthdaliadau
Subsidy Control Unit

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gyfalaf-gofal-plant-ar-blynyddoedd-cynnar-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.